

Cardiff & Vale  
Caerdydd a'r Fro

# Community Learning Partnership Partneriaeth Dysgu Cymunedol

2019/20

Dysgu ar  
gyfer y  
Gwaith

# Llawlyfr i Ddysgwyr

DICE

i mewn i  
waith

Dysgu  
am Oes

I ddysgwyr Gwasanaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion  
Cyngor Caerdydd



## Cynnwys

Cyflwyniad	3
Nodau	3
Rhaglenni Dysgu ar gyfer y Gwaith	4
Cofrestru a Chymhwyster	4
Polisiau	5
Cymorth i Ddysgwyr	5
Gofal Plant	6
Cynnwys Dysgwyr – Dweud eich dweud	6
Siartr Dysgwyr	7
Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni?	7
Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi?	7, 8
Achrediad	9
Bathodynau Agored	9,10
Beth nesaf?	10
Dyddiadau tymor	10
Cysylltiadau	11
Cyfyngau cymdeithasol	12



## Cyflwyniad

Diolch am gofrestru ar gwrs gyda Gwasanaeth Addysg Oedolion (DCO) Cyngor Caerdydd. Bydd y llawlyfr hwn yn rhoi i chi wybodaeth a chynghor defnyddiol i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich dewis gwrs. Felly cadwch ef wrth law!

Nod y llawlyfr i ddysgwyr hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am Wasanaeth Addysg Oedolion Cyngor Caerdydd, 'Dysgu ar gyfer y Gwaith' a DICE (Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol) Dysgu am Oes (DAO) a Gwasanaethau i Mewn i Waith. Bydd yn esbonio sut gallwn eich cefnogi a'ch tywys ar eich llwybr dysgu. Mae Addysg Oedolion (DCO) wedi ymrwmo i gynnig gwasanaeth dysgu perthnasol, lle y caiff cymryd rhan mewn dysgu ei annog a'i wobrwyo a lle y caiff pobl gyfleoedd cyfartal i ennill y sgiliau ar gyfer bywyd a'r gwaith y mae eu hangen arnynt i ffynnu. Mae Gwasanaeth DCO Caerdydd yn cydnabod, yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth pobl unigolyn yn ein cymunedau a'i nod yw cynnig gwasanaeth sy'n hybu cynhwysiant a chyfranogiad.

Mae Gwasanaeth Dysgu i Oedolion Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr dysgu lleol eraill ym

Mhartneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro.



## Nodau

Nod Addysg Oedolion yw cefnogi datblygu sgiliau, gwella iechyd a llesiant ac annog ymgysylltu ac integreiddio cymdeithasol trwy

- Gynnig cyfleoedd dysgu i'r bobl hynny sydd dan anfantais neu grwpiau neu unigolion heb ddigon o gynrychiolaeth
- Galluogi symud ymlaen at addysg bellach/uwch, cyflogaeth neu ddysgu arall

Mae helpu pobl i ennill y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fynd i mewn i'r gweithle yn flaenoriaeth glir i Ddysgu ar gyfer y Gwaith a rhaglen Dysgu ar gyfer y Gwaith DICE.

## Dysgu ar gyfer y Gwaith

Ariennir y cyrsiau hyn gan Lywodraeth Cymru ac fe'u dylunnir i gefnogi unigolion i ddychwelyd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach. Mae'r cyrsiau hyn am ddim i ddysgwyr cymwys.



## Dysgu am Oes

Rhaglen eang o gyrsiau hamdden i oedolion (16 oed+) ledled Caerdydd, gan gynnwys Celf a Chrefft, Cerddoriaeth, Garddio, Bwyd, Ioga, Ieithoedd a llawer mwy. Mae Dysgu am Oes hefyd yn cynnal dosbarthiadau ar ôl yr ysgol ac ar fore Sadwrn i blant yng Nghanolfan Celfyddydau Neuadd Llanofar.

I gael rhagor o wybodaeth, galwch heibio i Neuadd Llanofar, 25 Romilly Road, Caerdydd CF5 1FH neu gwasgwch opsiwn 2 ar 02920 87 20 30

## DICE (Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol)

Cyrsiau i oedolion gyda phrofiad o naill ai materion iechyd meddwl, nam corfforol neu synhwyrol a/neu anaf i'r ymennydd neu anhawster dysgu. Ariennir y rhan fwyaf o gyrsiau gan Lywodraeth Cymru i ddysgwyr sy'n gobeithio ennill cymhwyster yn ymwneud â'r gwaith. Yn ogystal, cynigir nifer bach o gyrsiau hamddenol y mae angen talu amdanynt. Hefyd, mae DICE yn cynnig cyrsiau hamdden am ffi, er mwyn gwella iechyd a llesiant, sgiliau cymdeithasol a hyder.

## Gwasanaethau I Mewn I Waith

Gall Dysgu Oedolion hefyd gynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi byr yn ymwneud a gwaith. Caiff y cyrsiau hyn eu cynnig mewn Hybiau a lleoliadau cymunedol eraill yn fisol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch a <https://www.intoworkcardiff.co.uk/cy/>

## Cofrestru

Mae'r bobl sy'n gymwys i gofrestru ar y cyrsiau hyn yn cynnwys:

Y rhai nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, sy'n derbyn budd-dal neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn oedran ymddeol).

Y rhai 50 mlwydd oed a hŷn nad ydynt mewn cyflogaeth llawn amser ac sy'n chwilio am waith.

Rydym hefyd yn croesawu pobl sydd ag ychydig gymwysterau ffurfiol neu ddim o gwbl. Croesawir atgyfeiriadau gan sefydliadau Trydydd Sector ac elusennau sy'n cefnogi unigolion i fynd yn ôl i addysg hefyd.



## Sut mae cofrestru ar gwrs Dysgu ar gyfer y Gwaith

Anogon ni ein dysgwyr i gofrestru'n bersonol mewn digwyddiadau cofrestru ledled y Ddinas, lle y gallwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau rydym yn eu cynnig, siarad â thiwtor a llenwi eich ffurflen gofrestru.

Ar gyfer dyddiadau a lleoliadau, ewch i'n gwefan [www.caerdydd.gov.uk/dysgu](http://www.caerdydd.gov.uk/dysgu)

Yma cewch wybodaeth am y cyrsiau unigol ac a oes angen i chi ddod â rhywbeth i'ch sesiwn gyntaf.

Yn ogystal, mae modd cofrestru yng Nghanolfan Severn Road o ddydd Llun i ddydd lau o 10am tan 2pm.

## Sut mae cofrestru ar gwrs DICE

- Cofrestrwch ar-lein [www.caerdydd.gov.uk/dysgu](http://www.caerdydd.gov.uk/dysgu) neu
- Ffoniwch: Canolfan Oedolion Severn Road 02920 872030 neu
- Cofrestrwch drwy'r post: Canolfan Oedolion Severn Road, Treganna CF11 9DZ neu
- Ewch i un o'r digwyddiadau cofrestru Dysgu ar gyfer y Gwaith.
- Ffôn: Canolfan Oedolion Severn Road 02920 872030
- Ewch i: Canolfan Oedolion Severn Road, Treganna CF11 9DZ
- Ymrestrwch mewn Hybiau ledled y Ddinas.

## Polisiau

### Cyfle cyfartal

Mae Gwasanaeth DCO Caerdydd yn croesawu pob dysgwr ni waeth beth fo'i hil, tarddiad ethnig, rhyw, anabledd, oedran, rhywioldeb, statws priodasol, cenedligrwydd, cred grefyddol neu nad yw'n grefyddol, cefndir teuluol neu unrhyw nodwedd unigol arall a allai gyfyngu ar gyfleoedd person mewn bywyd.

### Anabledd

Mae Cyngor Caerdydd yn credu y gall dysgu fod yn gwbl effeithiol os yw'n gynhwysol ond darperir amgylchedd dysgu ar wahân os ystyrir bod hynny'n fwy priodol.

Gwneir pob ymdrech i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod pobl sydd ag anabledd yn cael dweud eu dweud a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu trwy:

- Siarad â phobl anabl i gael gwybod am eu hanghenion dysgu
- Gweithio gyda phobl anabl a'u sefydliadau i sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at ddysgu cynhwysol



## Cydnabyddiaeth

Bydd Cyngor Caerdydd hefyd yn:

- Cydnabod bod rhai pobl wedi wynebu rhwystrau yn eu profiad blaenorol o addysg
- Gwerthfawrogi pawb sy'n cymryd rhan fel staff neu ddysgwyr
- Denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynigir gan y Gwasanaeth Addysg Oedolion a chwilio am ffyrdd i wella ansawdd y gwasanaeth rydym yn ei gynnig.
- Ymateb yn llawn i ymholiadau, awgrymiadau neu unrhyw faterion a godir.

## Diogelu a Prevent

Mae dyletswydd gyfreithiol ar unrhyw un sy'n gweithio yng Nghyngor Caerdydd i adrodd os ydynt yn pryderu am ddiogelwch neu lesiant plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg. Felly os oes gennych chi fel dysgwr unrhyw bryderon ynglŷn ag oedolyn neu blentyn sy'n agored i niwed ac sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, siaradwch â'ch tiwtor neu ag aelod o staff yn gyfrinachol.

Hefyd mae Dysgu i Oedolion Cyngor Caerdydd yn cymryd ran weithgar yn Prevent, sy'n un o bedwar trywydd yn strategaeth gwrth-derfysgaeth y llywodraeth. Mae hon yn Strategaeth genedlaethol,

sydd â'r nod o atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth.

Os ydych yn teimlo bod rhywun yn ceisio eich tynnu tuag at rannu barn neu gredoau eithafol, sy'n peri i chi fod yn anghyfforddus neu os ydych yn poeni am berson sy'n agored i niwed sy'n mynychu un o'n cyrsiau, siaradwch â'ch tiwtor neu ag aelod o staff.

Gall dysgwyr, sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am PREVENT gael mynediad at fodiwl hyfforddi ar-lein <https://www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/edu/screen1.html>

## Cymorth i Ddysgwyr

I'n gwneud yn ymwybodol bod angen cymorth ychwanegol arnoch, llenwch y ffurflen gofrestru a/neu siarad ag aelod o staff yn ystod y cyfnod cofrestru a/neu eich tiwtor.

Pa fath o help y gallwn ei roi?

- Newid ystafelloedd dosbarth, os oes angen, i hwyluso mynediad gan ddysgwyr sydd â materion symudedd.



- Bydd cymorth clywed ar gael mewn rhai amgylchiadau
- Dolen sain
- Deunyddiau â thestun mawr
- Amser ychwanegol ar gyfer arholiadau/asesiadau

## Cyfleusterau Gofal Plant

Mae gan Ganolfan Severn Road gyfleusterau crèche sydd ar gael ar gyfer rhai sesiynau. Holwch a yw'r crèche ar gael wrth i chi ymrestru ar eich cwrs. Cewch le yn y crèche os oes lleoedd ar gael ac ni allwn warantu cynnig gofal plant.

## Dweud eich Dweud

### Cynnwys Dysgwyr

Cynrychiolwyr Cwrsiau

Mae DCO Cyngor Caerdydd yn ymdrechu i gynnig y profiad dysgu gorau ar eich cyfer chi – ein dysgwr. Pwy well i ofyn iddo am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y gallwn ei wella na chi – ein dysgwr.

Ein bwriad yw nodi un dysgwr ym mhob cwrs i gynrychioli buddiannau ei gyd-dysgwyr. Bydd y Cynrychiolydd Cwrs hwn yn gyswllt pwysig rhwng dysgwyr a staff. Bydd Cynrychiolwyr Cwrs yn

- bwynt cyswllt ar gyfer dysgwyr ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud â chywrsiau;
- rhoi adborth sy'n dod o'r dosbarth i'r Swyddog Cynnwys Dysgwyr
- rhannu gwybodaeth sy'n dod o'r Swyddog Cynnwys Dysgwyr gyda'r dosbarth
- cael y cyfle i gynrychioli dysgwyr mewn fforwm dysgwyr

Cydnabyddir sgiliau trosglwyddadwy a enillir gan Gynrychiolwyr Cwrs, megis cyfathrebu, trefnu, rhoi adborth, sgiliau cyfarfod ac ati, gan "Fathodynau Agored" digidol.

Mae hefyd gyfle i ddilyn cwrs **Gwirfoddoli yn Nysgu Oedolion** achrededig.

Cefnogir cynrychiolwyr cwrs ar bob adeg gan y Swyddog Cynnwys Dysgwyr.

Rydym hefyd yn annog ein dysgwyr i ddweud eu dweud yn yr **Arolwg Llais Dysgwyr** gaiff ei wneud ar ddiwedd Chwefror 2018. Rhoddir gwybod i bob dysgwr am y canlyniadau a'r camau canlyniadol.

Lleolir blwch awgrymiadau Llais Dysgwyr trwy'r adeg yn y neuadd yng Nghanolfan Severn Road!





Ar gyfer ymholiadau ynghylch cynnwys dysgwyr a gwybodaeth am y cwrs gwirfoddoli cysylltwch â Hilde Schindler ar 07972 660 761.

### Siartr Dysgwyr

Mae Addysg Oedolion Cyngor Caerdydd yn gwerthfawrogi ein dysgwyr fel unigolion ac yn eu hannog i gyfrannu at ein rhaglen Dysgu ar gyfer y Gwaith.

Mae'r dysgwr wrth wraidd y broses ddysgu.

Ar sail yr egwyddorion y'u nodir yn y ddogfen 'Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017' a pholisïau Cyfle Cyfartal, Anabledd, Iechyd a Llesiant, Iechyd a Diogelwch a Diogelu Cyngor Caerdydd

### **gallwch ein disgwyl i wneud y canlynol:**

- eich trin chi gyda pharch a pheidio â gwahaniaethu
- rhoi gwybodaeth glir a pherthnasol am ein cyrsiau
- gwneud addasiadau rhesymol sy'n eich galluogi i gael mynediad at ddysgu a sicrhau y cewch y cymorth cywir
- cynnig amgylchedd dysgu croesawgar a diogel
- cynnig adnoddau a deunyddiau i'ch helpu i ddysgu
- cynnig cyrsiau ar lefel achredu briodol
- sicrhau bod ein tiwtoriaid â chymwysterau priodol i'ch addysgu fel unigolyn, yn cynnig amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu
- rhoi adborth adeiladol i chi i'ch helpu i wella eich sgiliau a'ch dealltwriaeth
- rhoi cyngor ar lwybr symud ymlaen sy'n briodol heriol trwy'ch cyfeirio at ddysgu pellach neu i mewn i waith
- gwrando ar eich sylwadau, eich canmoliaethau, eich pryderon a'ch cwynion a rhoi gwybod i chi am unrhyw gamau wedi'u cymryd
- eich cynnwys chi yn eich dysgu trwy ein cynllun Cynrychiolwyr Cwrs
- amddiffyn eich gwybodaeth bersonol rydych wedi'i rhannu gyda ni

### **Rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol**

- trin staff a chyd-ddysgwyr gyda chwarteisi a pharch ni waeth beth fo diwylliant, gallu, anabledd, hil, crefydd, rhyw, cyfeiriad rhywiol, oedran neu ddsbarth cymdeithasol. Ni chaniateir ymddygiad sy'n cam-drin neu fygwth rhywun yn DCO Cyngor Caerdydd.





- rhoi gwybod i ni os ydych yn penderfynu peidio â dechrau'r cwrs fel y gallwn roi eich lle i ddysgwr arall ar y rhestr aros.
- rhoi gwybod i ni os na allwch fynychu sesiwn.
- cyrraedd yn brydlon a/neu roi gwybod i ni os byddwch yn hwyr.
- ufuddhau i gyngor a gweithdrefnau iechyd a diogelwch.
- defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngwyd yn ddiogel ac yn briodol.
- diffodd eich ffôn symudol yn ystod sesiynau oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud felly.
- siarad â'ch tiwtor am eich cynnydd ac unrhyw beth a allai effeithio ar eich dysgu.
- cwblhau eich llyfr gwaith a/neu weithgareddau i'r safon ofynnol er mwyn ennill yr achrediad.
- rhoi adborth i ni i'n helpu i wella ein gwasanaeth

I ennill achrediad mae angen i chi fynychu o leiaf 80% o'r cwrs.

Ar ôl dau absenoldeb heb esgus ar ddechrau'r cwrs, rhoddir eich lle i'r person cyntaf ar y rhestr aros.

I roi gwybod i ni na allwch fynychu cwrs/sesiwn ffoiwch

029 20 872030

Gall sylwadau, cwynion a chanmoliaeth gael eu e-bostio i

[ymholiaddysguoedolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymholiaddysguoedolion@caerdydd.gov.uk)

## Achrediad

Ar lawer o gyrsiau, cewch gyfle i ennill achrediad. Gallwch wneud hyn trwy greu ffeil o waith yn ystod y cwrs, sefyll arholiad ar-lein neu sefyll arholiad yn yr ystafell ddosbarth. Ar ddechrau'r cwrs, bydd eich tiwtor yn dweud wrthyfych chi os yw wedi'i achredu a sut byddwch yn gwneud hyn.



## Tystysgrifau Achredu

Os enillwch yr achrediad yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn tystysgrif gan y Corff Gwobrwyo. Bydd y Swyddog Achredu yn hawlio'n rhain a gallent gymryd hyd at 6 i 8 wythnos i gyrraedd. Pan fydd eich tystysgrif yn cyrraedd, rhoddir gwybod i chi ar y ffôn fod angen i chi ddod i'w chasglu o'r dderbynfa yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Severn Road. Yn anffodus, ni ellir postio tystysgrifau. Pan fydd eich tystysgrif yn cyrraedd, cewch wybod trwy neges destun i ddod i'w chasglu o'r dderbynfa yng Nghanolfan Gymunedol Severn Road. Yn anffodus, **ni ellir postio tystysgrifau**. Os ydych yn dymuno codi tystysgrif ar ran rhywun, mae'n rhaid bod gennych ei ganiatâd ysgrifenedig a dod â phrawf o bwy ydych chi.

## Ymholiadau ac Apeliadau

Os oes ymholiad gennych am eich achrediad neu os nad ydych yn hapus gyda phenderfyniad eich aseswr am asesiad, mae gennych hawl i ymholi am y penderfyniad neu'i apelio.

### Y Weithdrefn Apelio

- **Rhaid gwneud apeliadau ymhen 3 diwrnod gwaith o dderbyn eich canlyniadau.**
- Bydd angen i'r dysgwr drafod ei bryderon gyda'i diwtor. Os byddai gwell gan y dysgwr i beidio â thrafod y mater gyda'i diwtor, gall siarad â'r Swyddog Addysg Gymunedol. Byddwn yn trio datrys y mater ar y cam hwn.
- Dogfennir yr holl gyfathrebu.
- Os nad yw'n bosibl datrys y mater o hyd, atgyfeirir y dysgwr at y Swyddog Achredu. Bydd y Swyddog Achredu'n archwilio'r hyn sydd wedi digwydd rhwng y dysgwr a'r tiwtor ac yn ceisio dod o hyd i ateb boddhaus. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd angen i'r dysgwr gysylltu â'r Corff Gwobrwyo a dechrau gweithdrefn apelio gyda nhw.
- Os nad yw'n bosibl datrys y mater o hyd, bydd y Swyddog Achredu yn archwilio beth sydd wedi digwydd rhwng y dysgwr a'r tiwtor ac yn ceisio dod o hyd i ateb. Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltir â'r Corff Dyfarnu a dechreuir apêl gyda nhw, gan ddilyn eu gweithdrefnau. Bydd y Swyddog Achredu yn rhoi arweiniad ar hyn.
- Caiff yr holl gyfathrebu ei ddogfennu.

Ceir canllaw cam wrth gam a'r Ffurflen Ymholiadau ac Apeliadau yn ein canllaw Achredu ar ein gwefan yn [www.caerdydd.gov.uk/dysgu](http://www.caerdydd.gov.uk/dysgu).



## Bathodynnau Agored

Mae Bathodynnau Agored, yn yr ystyr ehangaf, yn ffurf o gydnabyddiaeth ddigidol ar gyfer cyflawniadau a gwaith wedi'i gwblhau.

Nid yw llawer o gyrsiau heb achrediad yn cynnig ffurf o gydnabyddiaeth ar gyfer cyflawniadau dysgwyr yn ystod cwrs, mae Bathodynnau Agored yn ein galluogi i fynd i'r afael â hyn. Rydym wedi mabwysiadu'r ffurf hon ar achredu oherwydd y galw byd-eang cynyddol am gymwysterau Bathodyn Agored a'i berthnasedd yn y Diwydiant presennol, mae enghreifftiau o achredwyr neu gyflogwyr presennol sy'n gofyn am fathodynnau yn cynnwys Google, Microsoft, Admiral ac IBM.

Bydd dysgwyr yn derbyn eu bathodyn trwy e-bost a chaiff ei storio gyda disgrifiad o'r gwaith neu gyflawniad y mae'r bathodyn yn ei gydnabod ar eu cyfrif Moodle CVCLP cyfatebol. Gellir cysylltu'r bathodynnau hyn wedyn â CVau digidol, e-byst neu godau QR i gyflogeion posibl edrych arnynt a chael cipolwg o brofiad dysgu'r dysgwr a'r arbenigedd wedi dysgu.

Yn wahanol i dystysgrifau achredu papur, gellir cyflwyno Bathodynnau Agored yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith gofynnol a gallent helpu i greu teimlad o symud ymlaen trwy gydol y cwrs.

Yn ogystal â'u defnyddio ar gyfer cyflawniadau, gellir hefyd eu defnyddio i gydnabod nodau llai dysgwyr, yn enwedig presenoldeb mewn dosbarthiadau DICE lle y gallent helpu i annog dysgwyr i fynychu'r holl sesiynau er mwyn iddynt dderbyn bathodyn presenoldeb perffaith.

Mae Bathodynnau Agored yn offer hyblyg iawn. Mae'n nhw'n gallu gwneud unrhyw beth y mae'r Adran TGCh y Cyngor yn gallu meddwl amdano!

## Beth nesaf?

Os nad ydych yn siŵr am yr hyn i'w wneud ar ôl cwblhau eich cwrs, mae llawer o ddewisiadau ar gael i chi. Gallech drafod gyda'ch tiwtor neu dîm Severn Road ddewisiadau ar gyfer symud ymlaen ymhellach a chael achrediadau pellach yn ymwneud â'ch cwrs. Gallech hefyd dderbyn cyngor a gwybodaeth bellach am gyrsiau sydd ar gael gan ddarparwyr eraill yn addysg bellach neu uwch. Neu gallwch gysylltu â Gyrfa Cymru ar **0800 028 4844** neu fynd i'r wefan [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) am gyngor ac arweiniad.

## Dyddiadau tymor



## Cyrsiau DiG a chysiau DiG DICE:

### Tymor 1:

Dydd Llun 16/09/2019 – Dydd Gwener 06/12/2019

**Hanner Tymor:** Dydd Llun 28/10/2019 – Dydd Gwener 01/11/2019

### Tymor 2:

Dydd Llun 13/01/2020 – Dydd Gwener 03/04/2020

**Hanner Tymor:** Dydd Llun 17/02 – Dydd Gwener 21/02/2020

### Tymor 3:

Dydd Llun 20/04/2020 – Dydd Gwener 10/07/2020\*

**Hanner Tymor:** Dydd Llun 25/05/2020 – Dydd Gwener 29/05/2020

**\*Bydd Gŵyl Banc mis Mai 2020 ar 8 Mai, dydd Gwener. Felly bydd pob dosbarth dydd Gwener yn nhymer 3 yn dod i ben ddydd Gwener 17 Gorffennaf!**

## Cysylltiadau

Os oes gennych unrhyw broblemau neu ymholiadau, gall tîm DCO Caerdydd yng Nghanolfan Severn Road roi cyngor ac arweiniad. Gall eich helpu i lenwi eich ffurflen gofrestru, cadarnhau a ydych yn gymwys ar gyfer y cwrs a'ch cyfeirio at y cwrs sy'n gywir i chi.

Mae'r ganolfan ar agor **ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am tan 4pm**



Cyfeiriad: Llawr Uchaf, Ysgol Iau Severn Road, Severn Road,  
Treganna, CF11 9DZ

Ffôn: 02920 872030

E-bost: [ymholiaddysguoedolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymholiaddysguoedolion@caerdydd.gov.uk)

Gwefan: [www.caerdydd.gov.uk/dysgu](http://www.caerdydd.gov.uk/dysgu)

Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddogion Addysg:

Rhaglen Dysgu i'r Gwaith: **Marie Tanner**

Rhaglen DICE: **Jill Thomas**

Rhaglen Dysgu am Oes: **John Hobson**

Swyddog Achredu: **Rachel Earp**

Swyddog Digidol: **Katie Rappell**







Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol!



<https://www.facebook.com/adultcommunitylearningcardiff/>



<https://twitter.com/LearningCardiff?lang=en>



<https://www.instagram.com/learningcardiff/>



<https://www.pinterest.co.uk/ALcardiff/>





